**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Andrea Sutcliffe
Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth

28 Gorffennaf 2023

Annwyl Andrea Sutcliffe

## Ymchwiliad i gyfiawnder data

Yn ddiweddar, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi cynnal ymchwiliad byr i gyfiawnder data, gan ganolbwyntio ar y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru. Ceir rhagor o fanylion, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar ein gwefan.

Un o'r materion a godwyd yn ystod ein proses o gasglu tystiolaeth oedd pwysigrwydd diogelwch data a llywodraethu gwybodaeth yn effeithiol, yn ogystal â mynediad cleifion at eu data a'u cofnodion meddygol a'u rheolaeth drostynt. O ystyried y rôl allweddol y mae meddygon yn ei chwarae wrth drin data cleifion, byddem yn ddiolchgar pe gallech amlinellu pa hyfforddiant a roddir o ran moeseg a hawliau dynol, er mwyn sicrhau bod hawliau cleifion yn cael eu parchu a'u gwarchod.

Edrychwn ymlaen at gael eich ymateb.

Yn gywir



Jenny Rathbone MS
Cadeirydd, y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament